

Rhagair gan yr Arglwydd Brif Ustus

Mae'n amlwg bod nifer o lysoedd mewn gwahanol rannau o Gymru a Lloegr nad ydynt yn cyflawni pwrpas cyhoeddus digon gwerthfawr rhagor. Mewn ambell achos, mae eu lleoliad yn adlewyrchu anghenion cenedlaethau'r gorffennol ac maent yn cael eu tanddefnyddio: mae cyfleusterau llysoedd eraill a'u cyflwr yn gwbl anfoddhaol. Yn fras, am ryw reswm neu'i gilydd, nid yw llysoedd fel hyn yn gwasanaethu eu cymunedau rhagor, a phrin yw'r cyfiawnhad dros eu cadw ar waith.

Mae'r argyfwng ariannol cenedlaethol presennol wedi bod yn gyfle da inni edrych ar ystâd y llysoedd, ac yr oeddwn yn cefnogi'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn am ei fod yn rhoi cyfle nid yn unig inni ystyried lleoliad ein llysoedd, ond hefyd a oeddent yn cyflawni eu pwrpas i raddau digonol o ran gweinyddu cyfiawnder drwy'r wlad.

Mae'r ymatebion a anfonwyd i'm swyddfa wedi cael eu hystyried yn ofalus gan fy nghydweithwyr barnwrol, ac mae'r papur hwn yn cynnig dadansoddiad gwrthrychol o'r deunydd a anfonwyd ataf. Nid wyf am esgus bod y papur wedi ystyried yr holl ymatebion a anfonwyd gan lawer o wahanol farnwyr, ynadon, a phobl eraill, wrth iddynt ymateb i'r ymgynghoriad. Felly, nid yw'r papur yn honni ei fod yn cynrychioli ymateb y farnwriaeth yn ei chrynswth, nac ychwaith yng nghyswllt unrhyw un llys penodol yr ystyriwyd ei gau, ymateb holl aelodau'r gymuned honno.

O ran realiti ymarferol y sefyllfa, canlyniad y dadansoddiad yw bod pob llys yn dod o fewn un o'r tri chategori a ganlyn. Y cyntaf yw lle mae'r ddadl o blaid cau yn amlwg, er gwaethaf teimladau a thraddodiadau lleol. Mae'r ail categori'n cynnwys y llysoedd hynny y llwyddwyd i gyflwyno dadleuon cryf yn erbyn eu cau. Mae'r trydydd categori'n cynnwys y llysoedd na ddylid penderfynu'n derfynol yn eu cylch nes bod rhagor o fanylion ar gael. Yn fras, mae rhai o dybiaethau'r papur ymgynghori i bob golwg yn agored i'w cwestiynu.

Yr wyf yn ddiolchgar i bawb sydd wedi ymateb i'r papur ymgynghori, ac wedi tynnu sylw at agweddau penodol sy'n haeddu sylw ynglŷn â llysoedd unigol a'r cynnig i'w cau.



Y Gwir Anrhydedd yr Arglwydd Judge
Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr



UWCH FARNWR LLYWYDDOL
CYMRU A LLOEGR

**YMATEB GAN
UWCH FARNWR LLYWYDDOL
CYMRU A LLOEGR**

**CYNIGION
YNG LŶN Â DARPARU GWASANAETHAU'R
LLYSOEDD
YNG NGHYMURU A LLOEGR**


21 Hydref 2010

Rhagarweiniad

Ym mis Mehefin 2010, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Cyfiawnder un papur ymgynghori ar bymtheg a oedd yn cyflwyno'r cynigion ar gyfer darparu gwasanaethau'r llysoedd yng Nghymru a Lloegr yn y dyfodol. Gofynnodd yr Arglwydd Brif Ustus imi ystyried y cynigion yn fanylach a pharatoi ymateb ar ei ran. Wrth wneud hynny, yr wyf yn ddiolchgar i'r barnwyr a'r ynadon lu ledled Cymru a Lloegr sydd wedi cyflwyno'u safbwyntiau, gan roi golwg leol inni ar yr effaith a gâi'r cynlluniau.

Yn fy ymateb, ceisiaf dynnu'r safbwyntiau hynny ynghyd a chyflwyno'r hyn y bwriedir iddo fod yn asesiad teg a chytbwys o'r materion dan sylw. Yr wyf wedi ceisio nodi'r manau hynny lle y bydd cau llys yn peri anawsterau go iawn i ddefnyddwyr, ac ar yr un pryd, wedi ceisio arddel safbwynt bragmataidd, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, ynglŷn â lefel y ddarpariaeth y mae gofyn i lys ei chynnig yn yr 21^{ain} Ganrif.

Yr wyf yn gobeithio y bydd y ddogfen hon o gymorth i'r Arglwydd Ganghellor wrth iddo orfod gwneud penderfyniadau anodd.



Yr Arglwydd Ustus Goldring
Uwch Farnwr Llywyddol Cymru a Lloegr

Sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad

Gwahoddais fy nghyd-aelodau yn y farnwriaeth i leisio'u barn. Yr wyf yn ddiolchgar iddynt am eu cyfraniadau. Mae llawer ohonynt wedi rhoi eu teimladau personol o'r neilltu ac wedi mynd ati mewn ffordd wrthrychol. Mewn ambell achos, ar sail gwybodaeth leol, rhywbeth sydd weithiau ar goll yn y papurau ymgynghori, cyflwynwyd dadl gref dros gadw adeilad llys penodol ar agor, a byddwn yn pwysu y dylid, o dan amgylchiadau o'r fath, ystyried y sefyllfa eto cyn penderfynu.

Dylwn bwysleisio nad yw'n fwriad i'm hymateb fod yn ymateb 'barnwrol' hollgynhwysol, fel y mae'r Arglwydd Brif Ustus wedi'i egluro. Bydd llawer o ddeiliaid swyddi barnwrol eraill wedi ymateb i'r cynigion yn uniongyrchol ac yn fwy manwl o lawer. Serch hynny, yr wyf innau wedi gallu manteisio ar lawer o'r safbwyntiau hyn ac yr wyf wedi seilio fy ymateb ar y themâu sydd wedi deillio ohonynt, a hynny o ran llysoedd unigol ac yn gyffredinol.

Wrth restru fy sylwadau am lysoedd unigol, yr wyf yn nodi a wyf yn credu: **(a)** bod dadl fusnes amlwg o blaid eu cau; **(b)** na ddylid eu cau; a, **(c)** bod angen rhagor o fanylion cyn penderfynu.

O ran **(c)**, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael imi, ni allaf gefnogi na'u cadw na'u cau. Ym mhob un o'r achosion hynny, mae dadleuon rhesymegol yn erbyn eu cau y mae gofyn eu hystyried eto cyn penderfynu. Mater i'r Arglwydd Ganghellor fydd hyn. Mewn ambell achos, rhestrir llysoedd yn yr adran hon am y rheswm syml bod eu cau'n dibynnu ar alluogi gwaith mewn mannau eraill neu, am fod angen rhagor o fanylion ynglŷn ag a all llysoedd cyfagos ysgwyddo'r llwyth gwaith.

Oni ddywedir yn wahanol, mae'r holl ystadegau yn yr adroddiad hwn sy'n ymwneud ag i ba raddau y defnyddir y llysoedd wedi'u seilio ar ffigurau GLIEM ar gyfer blwyddyn ariannol 2009-10.

Pethau eraill i'w hystyried

Ynglwm wrth y papur hwn, ceir sylwadau manwl am bob cynnig unigol i gau. Serch hynny, mae nifer o themâu cyson yr wyf am eu codi yma ac sydd wedi'u hystyried ym mhob un o'r casgliadau a ganlyn. Bydd cael tawelu fy meddwl ynglŷn â rhai o'r themâu hyn yn dylanwadu'r gryf ar fy mhenderfyniad i gefnogi rhai o'r cynigion neu beidio.

Cywirdeb y data

I bob golwg, mae nifer o wallau pwysig yn y papurau ymgynghori. Yr wyf wedi dewis dwy enghraifft y tynnwyd fy sylw atynt, ond mae sawl un arall yr wyf wedi cyfeirio atynt yn fy ymatebion i'r cynigion unigol:

- Llys Ynadon y Fenni: Mae'r papur ymgynghori'n dadlau ar y sail nad yw'r llys wedi cael ei ddefnyddio er 1999. Caf ar ddeall, fodd bynnag, i'r llys gael ei adnewyddu'n ddiweddar ac iddo ailagor mewn gwirionedd ym mis Gorffennaf 2010.
- Yn achos llys sirol Llangefni, nid oes sôn o gwbl am waith y Barnwr Cylchdaith (50 diwrnod y flwyddyn), nac am waith y tribiwnlysoedd (27 diwrnod y flwyddyn) sy'n cael ei wneud hefyd. Yn ogystal â hynny, dywedir mai dim ond un ystafell sydd yno ar gyfer gwrandawiadau er fy mod i'n cael ar ddeall bod yno ddwy ystafell llys.

Wrth lunio fy ymateb i'r papurau ymgynghori, yr wyf am ei gwneud yn glir bod fy sylwadau, ar y cyfan, wedi'u seilio ar yr wybodaeth a roddwyd imi. O reidrwydd felly, yr wyf wedi bod yn ofalus iawn wrth imi gynnig barn ynglŷn â pha lysoedd y dylid ystyried eu cau.

Amserau teithio

Cyn penderfynu ynglŷn â chau llysoedd, mae'n bwysig ystyried yn iawn yr effaith ar y rheini sydd eisoes yn teithio o ben draw dalgylchoedd y llysoedd hynny y cynigir eu cau. Mae'r papurau ymgynghori'n tybio bod defnyddwyr yn byw yn yr un lleoliad â'r llys a glustnodwyd ar gyfer ei gau, gan ddarparu amser teithio o'r llys hwnnw i'r llys a fydd yn ysgwyddo'r gwaith yn ei le. (Yn aml, nid hwnnw yw'r llys agosaf oherwydd bod ffiniau Ardaloedd GLIEM wedi bod yn rhwystr rhag ystyried llysoedd sydd o bosibl yn fwy addas). Mae hyn yn amlwg yn gamgymeriad. Bydd llawer o ddefnyddwyr eisoes yn gorfod teithio awr i'w llys lleol a gallai'r amser hwnnw ddyblu'n rhwydd petai'n rhaid iddynt deithio i'r llys a awgrymir. Mewn nifer sylweddol o enghreifftiau, byddai defnyddwyr y llysoedd yn wynebu amserau teithio a fyddai bron yn amhosibl, gan olygu y byddai llawer yn methu â chyrraedd y llys cyn 10am ac yn cyrraedd gartref ar ôl 4pm. Ambell enghraifft:

- Ar hyn o bryd, cynhelir achosion Nefyn (poblogaeth 2800) yn Llys Ynadon Pwllheli. Yn ôl y cynigion, byddai'r achosion hyn yn cael eu hanfon i Gaernarfon. Nid oes cysylltiad cludiant cyhoeddus uniongyrchol rhwng Nefyn a Chaernarfon. Byddai gofyn i rywun deithio awr a deg munud ar fws. Byddai'r unig wasanaeth a fyddai ar gael i ddefnyddwyr y llys yn gadael am 8.15am, byddai gofyn newid unwaith, a byddai'n cyrraedd am 9.25am. Byddai'r bws hwn mewn gwirionedd yn teithio drwy Bwllheli.

- Frome: mae'n 32 milltir i Yeovil. Mae'r trê'n cyntaf i Yeovil yn mynd am 9.40am sy'n golygu na fydd defnyddwyr yn gallu cyrraedd y llys cyn 10am. Wrth deithio ar y trê'n cyntaf ar ôl 4pm, mae gofyn i rywun newid ddwywaith ac mae'r daith yn 2 awr ac 19 munud. Mae'r trê'n uniongyrchol nesaf yn mynd am 6.23pm. Nid yw hyn yn ystyried yr anawsterau a gaiff y rheini sy'n dod o ben draw dalgylch Frome.
- Ym Merthyr Tudful, mae bron 35% o'r aelwydydd heb gar ac yn Norfolk, mae tua 17% yn yr un sefyllfa. Felly, bydd y diffyg opsiynau ymarferol o ran cludiant cyhoeddus yn taro rhai o'r bobl dlotaf yn ein cymdeithas.

Bydd anhawster arall, llai amlwg, yn codi i lawer mewn cymunedau gwledig sy'n dibynnu ar gludiant cyhoeddus. Mewn llawer man, dim ond un gwasanaeth bws neu drê'n sydd ar gael. Gan ei bod yn debygol y bydd y rhai sydd wedi dioddef yn sgil trosedd, neu'r rheini sy'n ymwneud ag anghydfodau sifil a theulu, yn byw yn yr un gymdogaeth â phartïon eraill, nid yw'n anodd rhagweld y partïon i gyd yn teithio gyda'i gilydd ar y bws lleol i gyrraedd y llys mewn pryd. Bydd cau llysoedd yn gwaethygu anawsterau o'r fath.

Yr wyf yn ymwybodol hefyd y daw prisiau tocynnau cludiant cyhoeddus, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, o dan bwysau cynyddol wrth i'r Llywodraeth ystyried arbed arian drwy godi prisiau a lleihau cymorthdaliadau.

Gwaith teulu

Yr wyf yn poeni'n arbennig am fynediad at gyfiawnder i deuluoedd; er enghraifft, mae pedair canolfan gwrandawriadau teulu yng Ngogledd Cymru, a chlustnodwyd dwy o'r rheini ar gyfer eu cau. Yr wyf yn ymwybodol nad yw gwaith teulu wedi'i ystyried yn rhan o'r ymarfer ymgynghori hwn; byddwn yn pwyso y dylid ystyried hyn cyn bwrw ymlaen ag unrhyw gynlluniau i gau canolfannau teulu. Mae'r llwyth gwaith wedi cynyddu'n sylweddol, ac mae hynny'n debygol o barhau. Rhaid adlewyrchu hynny yn y rhaglen cau. Os rhywbeth, mae'n debygol y bydd mwy o waith yn cyrraedd y Llys Achosion Teulu, er enghraifft, achosion sy'n cynnwys y Twrnai Swyddogol a chynrychioli plant mewn achosion cyfraith breifat (yn sgil newid y Rheolau yn 2011).

Yr wyf yn poeni hefyd am gydleoli'r Llys Achosion Teulu a'r llysoedd sirol, o ran eu hadeiladau neu o ran eu gweinyddiaeth. Nid yw'n glir a yw'r agwedd hon wedi cael ei hystyried yn llawn fel rhan o'r cynigion ac yr wyf yn awyddus i sicrhau nad yw'r cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yn hyn yn cael ei ddadwneud.

Yn olaf, lle bydd Llysoedd Achosion Teulu yn cau, mae'n hollbwysig bod eu gwaith yn cael ei symud i amgylchedd addas, yn hytrach na dim ond i'r ystafell llys troseddol agosaf. Er enghraifft, dylid rhoi sylw i'r ffaith bod angen cadw'r rhai sy'n ymwneud ag achosion teulu, yn enwedig plant, ar wahân i'r rheini sy'n ymwneud ag achosion troseddol. Wrth gwrs, mae'r gwrthwyneb yn wir lle bydd gwaith troseddol yn cael ei symud i lysoedd teulu nad ydynt o anghenraid yn addas ar gyfer gwaith o'r fath.

Ffigurau defnyddio

Mae'r papurau ymgynghori'n brin o fanylion go iawn ynglŷn â'r ffigurau defnyddio. Yr oeddwn yn ffodus o gael gweld y ffigurau ar gyfer llysoedd unigol, ond nid oedd y papur ymgynghori ond yn rhoi ffigur cyffredinol ar gyfer ardal. Gwn fod llawer o farnwyr ac ynadon yn poeni am allu llysoedd cyffiniol i ysgwyddo llwyth gwaith llysoedd sy'n cau (er enghraifft, awgrymir y gall Caerdydd ysgwyddo'r llwyth gwaith sylweddol a wneir ar hyn o bryd gan Lys Ynadon y Barri). Nid wyf wedi cael y ffigurau defnyddio ar gyfer y llysoedd y dywedir y gallant ysgwyddo llwyth gwaith ychwanegol, felly, ni allaf ddweud a yw'r cynigion yn ymarferol yn y cyswllt hwn.

Yr wyf yn poeni hefyd am yr honiad bod modd sicrhau cyfradd defnyddio 80% heb i hynny olygu rhagor o oedi. Dylai hynny fod yn wir yn ddamcaniaethol, ond ofnaf y gall pethau fod yn wahanol yn y byd go iawn. Yr wyf yn amau hefyd a ellid hyd yn oed ysgwyddo cynnydd bychan yn y llwyth gwaith heb greu anhawster sylweddol.

Arbedion net

Mae'r arbedion a nodir (£15 miliwn), wrth gwrs, yn swm sylweddol ond, i bob golwg, nid ydynt yn ystyried y costau ychwanegol a ddaw yn sgil y cau. Gall y rhain gynnwys, ymhlith pethau eraill:

- cynnydd yn y costau a hawlrir ar gyfer ynadon, dioddefwyr a thystion
- costau posibl o ran amser yr Heddlu os bydd mwy o ddiffynyddion yn methu ag ymddangos
- cost gwaith galluogi
- y posibilrwydd y cedwir lesdaliadau, a'r costau blynyddol yn sgil hynny
- y caiff llawer o'r costau cynnal eu trosglwyddo i'r adeilad newydd (o ran cynnydd yng nghostau'r prif wasanaethau, traul ac ati)
- achosion mwy aneffeithiol oherwydd bod tystion a phartïon eraill o bosibl yn methu â chyrraedd y llys mewn pryd, os o gwbl.

Cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd

Mewn byd delfrydol, byddai holl ystâd y llysoedd yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf, ond, wrth gwrs, nid oes modd cyflawni hynny. Er ei fod yn berthnasol, ni ellir seilio'r penderfyniad ar hyn. Byddwn hefyd yn cwestiynu'r ffigurau a roddir ynglŷn â'r gwaith y mae angen ei wneud yn y llysoedd hynny a gynhwysir yn y papurau ymgynghori; ni allaf ond tybio eu bod wedi'u seilio ar y lefel gydymffurfio uchaf un, sydd o bosibl yn afrealistig ac ystyried y byddai llawer o'r ystâd sy'n weddill yn straffaglu i gyrraedd safon mor uchel.

Recriwtio Ynadon a Chynnal eu Hysbryd

Mae gan ynadon gysylltiad cryf â'u hardal leol; yn wir, ers blynyddoedd lawer mae cyfiawnder lleol yn gysyniad y mae Llywodraeth ar ôl Llywodraeth wedi'i bwysleisio droeon. Ofnaf y bydd creu ystâd llysoedd sy'n fwy gwasgaredig yn effeithio ar faint o ynadon yn y gwahanol ardaloedd sy'n barod i'w cynnig eu hunain ar gyfer y gwaith gwirfoddol pwysig hwn. Ofnaf hefyd y bydd ysbryd yr ynadon sy'n weddill yn cael ei lethu os anwybyddir rhesymau cryf dros gadw llys ar agor dim ond er mwyn arbed symiau bychain.

Bydd hefyd angen ystyried yr ynadon hynny y gall fod angen iddynt drosglwyddo i Fainc arall er mwyn bod yn nes at lys, er bod hynny mewn Ardal Cyfiawnder Lleol Arall, yn hytrach na chael eu cynnwys mewn Mainc newydd lle bydd y llysoedd hynny ymhellach i ffwrdd. Mae hyn yn debygol o fod yn wir ar gyfer sawl un, a dylid ystyried gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd er mwyn gwneud addasiadau rhesymol.

Yn ogystal â hynny, bydd angen ystyried nifer yr ynadon y mae eu hangen ac a oes digon o ddiwrnodau eistedd ar gael i ganiatáu i ynadon gyflawni'r gofyniad sylfaenol.

Caf ar ddeall bod swyddogion yn y Swyddfa Farnwrol eisoes wedi trafod y pethau hyn â GLIEM a byddwn yn pwysu am weld mwy o gynllunio manwl, cyn rhoi unrhyw gynigion ar waith.

Posibiliadau cydleoli

Ymddengys fod diffyg gweledigaeth strategol ar gyfer y tymor hir o ran cyfleoedd i gydleoli. Mae sawl enghraifft lle'r anwybyddwyd eisteddiadau tribiwnlysoedd yn yr ardal ar hyn o bryd (a hyd yn oed yn yr adeilad y cynigir ei gau). Yn ogystal â hynny, mewn ambell achos, bydd y Crwner yn cynnal adeilad ar wahân yn y dref, ond, unwaith eto, nid yw'r papurau ymgynghori wedi nodi hyn, i bob golwg.

Byddwn yn awgrymu y dylid gwneud rhagor o waith cyn cael gwared ar gyfleusterau da, i weld a allai'r Tribiwnlysoedd, y Crwner neu asiantaethau eraill ddefnyddio'r adeiladau sydd ar gael.

Gwaith galluogi

Mewn llawer o enghreifftiau, cynigir cau llysoedd ar sail gwneud gwaith galluogi mewn llysoedd cyffiniol. Hoffwn bwysleisio na ddylid cau'r un llys yn fy marn i heb fod yr arian angenrheidiol ar gael i wneud y gwaith.

Ystafelloedd barnwrol

Yr wyf wedi trafod isod y ffaith bod yn rhaid gallu symud barnwyr i fan arall, os caeir eu llys. Rhaid i'r adeilad hwnnw fod yn addas a rhaid bod digon o ystafelloedd llys ar gael ar gyfer y gwaith ychwanegol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i waith teulu, lle bydd Barnwyr Rhanbarth eisoes yn cael eu rhoi mewn sefyllfa lle byddant yn gorfod gwrando materion sy'n aml yn sensitif ac yn anodd iawn yn y Siambrau, a'r rheini'n cynnig ychydig iawn o ddiogelwch a heb gyfleusterau digonol ar gyfer nifer fawr o bobl.

Gwaith cynnal a chadw sy'n cronni

Mae llawer o Farnwyr ac ynadon wedi amau'r ffigurau ynglŷn â gwaith cynnal a chadw sy'n cronni fel y'i rhestrir yn y papurau ymgynghori. Mae'r rhain i bob golwg yn uchel iawn, ac yr wyf yn gwybod bod un papur ymgynghori wedi'i ailgyhoeddi oherwydd bod gwallau yn y ffigurau.

Caf ar ddeall hefyd fod y ffigurau ynglŷn â'r gwaith sy'n cronni'n cynnwys gwaith a fyddai, ar y gorau, yn cael ei ystyried yn waith y byddai'n ddymunol ei wneud. Nid wyf wedi gallu cadarnhau hyn, ond, er enghraifft, mae'r Fainc leol yn Balham wedi cael mwy o fanylion am y gwaith sy'n cronni ganddynt sy'n

awgrymu mai dim ond gwerth £11,000 o'r £325,000 a ddyfynnir ar gyfer hyn sy'n cael ei ystyried yn waith blaenoriaeth 1, ac mai gwaith mwy tymor hir neu waith y byddai'n ddymunol ei wneud yw'r gweddill. Petai hyn yn wir drwy'r wlad, byddwn yn poeni bod cyfleusterau'n cael eu cau ar y sail eu bod yn dadfeilio er eu bod mewn gwirionedd yn hollol ddigonol ac er nad yw llawer o'r gwaith y cyfeirir ato ond yn waith y byddai'n ddymunol ei wneud.

Demograffeg

Ychydig iawn o sylw sydd wedi'i roi, i bob golwg, i newidiadau demograffig yn y boblogaeth, y tu hwnt i ddatganiad cyffredinol ym mhob un o'r papurau ymgynghori sy'n dweud nad yw lleoliadau'r llysoedd ar hyn o bryd yn adlewyrchu newidiadau yn y boblogaeth, yn y llwyth gwaith nac o ran trafniadaeth. Ymddengys mai ychydig iawn o ddadansoddi sydd ar y pwynt cyntaf a'r trydydd. Yr wyf yn ymwybodol, er enghraifft, bod cynnydd enfawr wedi bod ym mhoblogaeth Ashford yn swydd Gaint yn sgil rhaglen sylweddol i godi tai newydd. Yn anffodus, mae'n debygol y bydd hyn bron yn sicr o arwain at fwy o droseddu a rhagor o deuluoedd yn chwalu. Yn eu tro, daw'r achosion hynny gerbron y llysoedd. I bob golwg, nid yw'r papurau ymgynghori'n cydnabod hyn.

Uno Meinciau

Yr wyf yn deall bod pobl yn nerfus ynglŷn ag uno Meinciau, ond byddwn yn pwysu ar ynadon i edrych yn greadigol ar sut y gellir rheoli gwaith yn gall ar sail ehangach a mwy hyblyg nag yn y gorffennol. Ar yr un pryd, ni ddylid rhuthro cynlluniau o'r fath. Nid wyf wedi sôn yn fanwl am uno onid wyf o'r farn y bydd gwaith y llysoedd yn dioddef yn sgil hynny, ond yr wyf yn gwybod bod gan lawer o ynadon gynigion amgen call ar gyfer ad-drefnu ardaloedd y dylid eu hystyried gan gofio bod eu gwybodaeth leol yn well. Gwn hefyd y bydd llawer o Feinciau'n tyfu o ran eu maint yn sgil hyn, ond, cyhyd ag y rhoddir y gefnogaeth briodol i ynadon, nid wyf yn gweld bod hyn, ynddo'i hun, yn anhawster nad oes modd ei ddatrys.

Mae materion llai amlwg hefyd y dylid eu hystyried; go brin y byddai llawer o ynadon yn anghytuno na ellid trefnu Meinciau'n fwy effeithlon, ond mae llawer yn amau ai 'yr un ateb i bawb' yw'r ffordd orau o fynd ati. Penodir ynadon i weithio mewn ardal benodol ac maent yn teimlo bod ganddynt gysylltiad arbennig â'u hardal. Efallai y gallai ynadon barhau i fod yn gysylltiedig â llysoedd penodol o fewn Ardal Cyfiawnder Lleol fwy fel na chollir y cysylltiad hwn. Un elfen allweddol fydd sicrhau bod pawb dan sylw'n hyblyg.

Llundain:

Gallaf weld bod ymagwedd fwy Llundain-gyfan at reoli'r llwyth gwaith yn cynnig posibiliadau go iawn ar gyfer symud gwaith i gyfleusterau mwy newydd sy'n gallu ymdopi â'r gwaith hwnnw. Mae 28 o Ardaloedd Cyfiawnder Lleol ar hyn o bryd; ni chredaf fod modd cynnal hynny. Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn:

- Camden ac Islington: mae'r Fainc wedi awgrymu y gallai fod yn well uno â Westminster a City gan eu bod i gyd yn gwasanaethu Bwrdeistrefi Llundain fewnol. Maent yn awgrymu hefyd bod hynny'n gallach

oherwydd bod Heddlu Trafnidiaeth Prydain yn bwriadu canolbwyntio'u herlyniadau yn Highbury felly, byddai uno â Dinas Westminster yn golygu bod pob un, ar wahân i un o orsafoedd y brif lein, o fewn un Ardal Cyfiawnder Lleol, gan gynnig mwy o hyblygrwydd. Mae uno â Haringey ac Enfield i bob golwg wedi'i seilio fwy ar ddaearyddiaeth nag er y budd cyffredinol a ddeilliai i'r busnes yn sgil hynny. Efallai y bydd angen rhagor o ystyriaeth ag ymgynghori.

- Bydd uno'r Fainc (Ealing, Hounslow a Hillingdon) yn creu Ardal Cyfiawnder Lleol newydd sy'n cynnwys oddeutu 425 o ynadon; bydd angen sicrhau bod Clerc yr Ynadon a'i reolwyr, a Chadeirydd y Fainc yn cael digon o gymorth.

Cymru:

- Dyfed Powys: Mae'r Llywyddion wedi awgrymu y gellid cyflwyno dadl gref dros ddau welliant i'r cynigion. Gellid uno Sir Drefaldwyn ag Ardal Cyfiawnder Lleol newydd Brycheiniog a Maesyfed a dylai Ystradgynlais drosglwyddo o Ardal Cyfiawnder Lleol Aberhonddu i Ardal Cyfiawnder Lleol Abertawe.
- De Cymru: Mae'r Llywyddion wedi awgrymu y dylid ystyried trosglwyddo Ystradgynlais o Ardal Cyfiawnder Lleol Brycheiniog a Maesyfed i Ardal Cyfiawnder Lleol Abertawe (fel uchod) ac uno Meisgyn â Merthyr a Chwm Cynon i greu un Ardal Cyfiawnder Lleol i'r Cwm.
- Mae'r Fainc leol yng Nghaerdydd yn cefnogi uno â Bro Morgannwg, ond yn gwrthwynebu'r enw newydd a gynigir; byddent yn awgrymu Ardal Cyfiawnder Lleol Caerdydd a'r Fro yn lle hynny.

Ffiniau'r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol

Ymddengys fod awgrymiadau i gau llysoedd wedi'u gwneud ar y sail y symudir gwaith i lys arall o fewn yr un Ardal Cyfiawnder Lleol. Mae hyn wedi arwain at sawl canlyniad rhyfedd:

- Petai Blandford Forum yn cau, cynigir symud y gwaith i'r llys arall sydd yn yr un Ardal Cyfiawnder Lleol, Weymouth, a hwnnw rhyw 27 milltir i ffwrdd. Mae tri llys arall sy'n nes yn yr Ardal Cyfiawnder Lleol cyffiniol.
- At hynny, awgrymir y dylid symud y gwaith o Harlow i Chelmsford sydd 21 milltir i ffwrdd. Nid yw ond yn 10 milltir i Hertford, ond nid yw'n glir yn y papurau ymgynghori pam na ellid trosglwyddo'r gwaith i'r fan honno.

Byddwn yn awgrymu bod angen rhagor o waith i ystyried a ddylid rhoi mwy o flaenoriaeth i hwylustod y trefniadau, yn hytrach nag i ffiniau traddodiadol yr Ardaloedd Cyfiawnder Lleol.

CP15/10: Cynnig ynglŷn â darparu gwasanaethau'r llysoedd yng Nghymru.

Mae'r cynigion yng Nghymru'n cynnwys cau traean o'r Llysoedd Ynadon, 13 o blith 29 llys. Barn y Barnwyr Llywyddol yw, os bwrir ymlaen â'r cynigion, na fydd fawr ddim hyblygrwydd, os o gwbl, ar ôl yn y system.

Y peth pwysicaf i Gymru yw sicrhau bod drws cyfiawnder ar agor. Mae rhannau o'r wlad yn dioddef o ddiweithdra mawr a chryn amddifadedd cymdeithasol, ac mae rhannau eraill o'r wlad yn ardaloedd gwledig, eang, tenau eu poblogaeth. Bydd talu am docyn bws neu drên i rai'n golygu caledi go iawn. Mewn ambell achos, fy marn i yw nad yw cyfleusterau gwael a'r ffaith nad oes llawer o ddefnydd ar lys yn gwrthbwysu'r anhawster go iawn a gaiff defnyddwyr y llysoedd wrth iddynt deithio i'r llys hwnnw.

Yr wyf yn poeni'n arbennig am fynediad at gyfiawnder i deuluoedd; er enghraifft, caf ar ddeall fod pedair canolfan gwrandawiadau teulu yng Ngogledd Cymru, a dwy o'r rheini wedi'u clustnodi ar gyfer eu cau. Nid oes dim i awgrymu bod gwaith teulu wedi bod yn ffactor yn yr ymgynghori a byddwn yn pwysu am ystyried hyn cyn bwrw ymlaen ag unrhyw gynlluniau i gau canolfannau teulu.

(a) Dim gwrthwynebiad i'r cau

Llys Ynadon Abertyleri

Mae cyfleusterau'r llys yn wael a dim ond 32% yw cyfradd defnyddio'r llys. Wedi dweud hynny, mae'r daith 50 munud ar fws yn ymylu ar fod yn annerbyniol. Mae defnyddwyr y llys sy'n dod o ben draw'r dalgylch yn debygol o orfod teithio ymhell dros awr. Serch hynny, nid yw aelodau'r farnwriaeth yr ymgynghorwyd â hwy'n gwrthwynebu, ac ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, ymddengys mai ychydig o gyfiawnhad sydd dros gadw'r llys ar agor.

Llys Ynadon y Fflint

Dim ond un diwrnod yr wythnos y bydd y Fflint yn eistedd ac mae'r ffigur defnyddio'n isel iawn (24%) a'r math o fusnes a wneir yno'n gymharol gyfyngedig. Mae'r pellter i'r Wyddgrug yn dderbyniol (dim ond 5 milltir). Nid yw aelodau'r farnwriaeth yr ymgynghorwyd â hwy'n gwrthwynebu, ac ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, ymddengys mai ychydig o gyfiawnhad sydd dros gadw'r llys ar agor.

Llys Ynadon Llanymddyfri

Nid yw'r llys wedi cael ei ddefnyddio ers y flwyddyn 2000. Yr awdurdod lleol sy'n berchen arno (ac fe'i defnyddir fel llyfrgell). Mae'r amserau teithio yn y rhan hon o Gymru yn sylweddol ond, gan nad yw'r llys yn cael ei ddefnyddio, mae'n ymddangos bod defnyddwyr yn gallu defnyddio'r llys agosaf nesaf yn Llanelli. Nid yw aelodau'r farnwriaeth yr ymgynghorwyd â hwy'n gwrthwynebu, ac ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, ymddengys mai ychydig o gyfiawnhad sydd dros gadw'r llys ar agor.

Llys Sirol y Rhyl

Byddai gofyn gwneud gwaith galluogi ym Mhrestatyn cyn ei gau. Mae llys y Rhyl yn cael ei ddefnyddio'n helaeth, mae'n eistedd bob dydd, ac mae'n gwasanaethu cymuned arbennig o ddi-fraint. Mae'n ymwneud ag ystod eang o waith, gan gynnwys achosion gofal, ysgaru a mabwysiadu. Fodd bynnag, nid yw Prestatyn ond 3 milltir i ffwrdd a gallai'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr y llys deithio yno heb anhawster. Byddai angen i'r gwaith galluogi angenrheidiol sicrhau bod ystafelloedd addas ar gael ar gyfer y Barnwyr Rhanbarth, yn enwedig ar gyfer y gwaith gofal y bydd angen ei drosglwyddo i Brestatyn.

(b) Gwrthwynebu cau

Llys Sirol a Llys Ynadon Aberdâr

Mae'r llys sirol a Llys yr Ynadon wedi'u lleoli yn yr un adeilad sy'n cynnwys un ystafell llys sirol ac un ystafell llys Ynadon. Mae'r papur ymgynghori'n awgrymu mai prin y mae'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd a bod yno gryn waith cynnal a chadw sy'n cronni.

I bob golwg, defnyddir y llysoedd yn eithaf aml. O ran y Llys Ynadon, mae'n eistedd bedwar diwrnod yr wythnos a'r gyfradd defnyddio yw 57%. Cynigir y dylid trosglwyddo'r gwaith i Ganolfan Llysoedd Cyfun Merthyr Tudful.

Mae'r amserau teithio i Ferthyr i bob golwg yn dderbyniol. Serch hynny, mae rhai'n poeni na fyddai'r arbedion net i'r busnes yn cael eu gwireddu petai'r cau'n mynd rhagddo. Er enghraifft, ychydig o ffydd sydd gan Gymdeithas Barnwyr Rhanbarth EM yn yr awgrym bod gan yr adeilad broblemau difrifol o ran y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. Mae amheumon gwirioneddol hefyd ynglŷn â'r ffigurau a awgrymir ynglŷn â'r gwaith cynnal a chadw sy'n cronni; caf ar ddeall fod y ffigur gwreiddiol, sef £770,000 wedi'i ostwng i £190,000.

Mewn ymgynghoriad diweddar gan GLIEM, awgrymwyd symud y Llys Achosion Teulu i Ferthyr Tudful. Casglwyd na ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig, gan gydnabod bod problemau teithio'n ystyriaeth bwysig. Mae'r ardal hon o Gymru'n ardal dlawd, a bron 35% o'r aelwydydd heb gar. Mewn ymgynghoriad arall, ym mis Awst 2009, ynglŷn â darparu gwasanaethau cownter, casglwyd: "Oherwydd lleoliad y llys, yr ardal mae'n ei gwasanaethu a'r galw presennol am wasanaethau, mae GLIEM yn sylweddoli bod angen cynnal presenoldeb yn Aberdâr".

Awgrymir hefyd fod y cysylltiadau cludiant yn well rhwng Aberdâr a Phontypridd nag y maent rhwng Aberdâr a Merthyr, felly dylid ystyried a ddylid symud y gwaith i Bontypridd. Fe allai hefyd fod yn bosibl i'r tribiwnlysoedd a'r crwner (sy'n defnyddio lleoliad ar wahân ar hyn o bryd) ddefnyddio'r adeilad. Yn olaf, mae Canolfan Gyswllt Aberdâr yn lesio llawr gwaelod yr adeilad; dyma'r unig ganolfan sy'n cynnig cyswllt dan oruchwyliaeth yn y rhan honno o Gymru, ac i bob golwg, byddai'n anodd i'r ganolfan adleoli.

Y farn gyffredinol gan y farnwriaeth leol, a'r Barnwyr Llywyddol, yw na ddylid bwrw ymlaen i'w gau.

Llys Ynadon y Fenni

Yr wyf yn poeni bod y papur ymgynghori'n dadlau ar y sail nad yw'r llys wedi cael ei ddefnyddio er 1999. Efallai fod hyn yn wir, ond caf ar ddeall nad dyma'r darlun llawn: mae'r llys wedi'i adnewyddu'n ddiweddar ac mewn gwirionedd, fe ailgorodd ym mis Gorffennaf 2010. Dyma'r unig lys sy'n gwasanaethu gogledd Gwent. Yn ôl y disgrifiad, mae'r cyfleusterau yng Nghasnewydd, sy'n debygol o ysgwyddo'r gwaith yn ei le, yn drychinebus ac ar hyn o bryd, nid yw'n fwriad bwrw ymlaen â'r cynlluniau ar gyfer prosiect adeiladu newydd.

Oni chaiff y cyfleusterau yng Nghasnewydd eu gwella, gwrthwynebir y cau.

Llys Ynadon Aberteifi

Nid yw'r adeilad yn Aberteifi yn addas. Serch hynny, er mai ychydig o ddefnydd sydd ar y llys, mae'r defnydd hwnnw'n gyson ac ymdrinnir ag amrywiaeth dda o achosion yno. Cynigir symud y gwaith hwnnw i adeilad llys a godir o'r newydd yn Aberystwyth.

Mae'r cysylltiadau cludiant yn y rhan wledig hon o Gymru'n golygu teithiau hir iawn. Mae'n 38 milltir i Aberystwyth ac yn daith ddwyawr ar fws. Nid yw hynny mewn gwirionedd yn ymarferol. Nid yw costau cynnal y llys mor drwm â hynny ac nid oes fawr o waith cynnal a chadw'n cronni.

Onid aiff y prosiect adeiladu o'r newydd yn ei flaen yn Aberystwyth, nid yw'r cyfleusterau sydd yno ar hyn o bryd o safon arbennig o uchel ac mae'n anodd gweld sut y cynigir gwell gwasanaeth i ddefnyddwyr y llys. Barn y Llywyddion yw, hyd yn oed os codir adeilad newydd yn Aberystwyth, y byddai pobl rhan helaeth o'r sir yn gorfod teithio cryn bellter i'w deithio i lys petai Aberteifi'n cau.

Mae'r llys hwn, efallai'n fwy na'r un, yn dangos y gwrthdaro go iawn sy'n codi rhwng sicrhau mynediad at gyfiawnder a chyfleusterau priodol cyfoes. O bwysu a mesur, credaf fod modd cyfiawnhau ei gadw ar agor.

Llys Ynadon a Llys Sirol Llangefni

Yn y lle cyntaf, mae cynlluniau ar y gweill i gydleoli'r llys sirol a'r Llys Ynadon. Mae hyn, i bob golwg, yn gall. Yna, cynigir cau'r llys sirol a'r Llys Ynadon a throsglwyddo'r gwaith i Gaergybi.

Bydd y llys sirol yn eistedd yn weddol aml (3 diwrnod yr wythnos) ac yn ymdrin ag amrywiaeth dda o waith. Mae costau cynnal isel y Llys Ynadon yn awgrymu y byddai cydleoli'n cynnig gwerth am arian i ddefnyddwyr y llysoedd. Mae cyfleusterau cludiant cyhoeddus Ynys Môn yn wael a bydd y daith i Gaergybi i ddefnyddwyr y llysoedd sy'n teithio o ben draw'r dalgylch yn sylweddol ac yn anodd. Yng Nghaergybi y mae'r unig lys arall ar yr ynys (sydd ar hyn o bryd yn cynnig cyfleusterau cymharol wael). Mae Cymdeithas Barnwyr Rhanbarth EM yn gwrthwynebu ei gau'n gryf am resymau tebyg ac mae wedi cynnig nifer o enghreifftiau lle mae'r amser teithio i Gaergybi yn hwy o lawer nag awr. Nid oes sôn o gwbl am waith y Barnwr Cylchdaith yn Llangefni nac am waith tribiwnlysoedd (27 diwrnod y flwyddyn) sy'n cael ei

wneud hefyd. Dywedir hefyd mai dim ond un ystafell sydd yno ar gyfer gwrandawiaidau, er fy mod i'n cael ar ddeall bod yno ddwy ystafell llys.

Dylid ystyried symud y rhan fwyaf o fusnes llysoedd Ynys Môn i Langefni (sydd yng nghanol yr ynys) yn hytrach na gwneud gwaith galluogi yng Nghaergybi (sydd ym mhen draw'r ynys) a chau Llangefni. Byddwn yn awgrymu bod angen gwneud rhagor o waith ar ddarparu cyfiawnder ar Ynys Môn cyn bwrw ymlaen rhagor â'r cynigion.

Llys Ynadon Pwllheli

Un ystafell llys a thair cell cadw sydd ym Mhwllheli. O ran cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, nid yw ystafell y llys yn cyflawni llawer o'r gofynion, er bod y costau cynnal yn isel (£32k y flwyddyn) ac mai cymharol ychydig o waith cynnal a chadw sydd wedi cronni yno (£70k). Cynigir trosglwyddo'r gwaith i Gaernarfon.

Nid yw cyfradd defnyddio'r llys yn uchel, ond mae'r pellter teithio, 21 milltir i Gaernarfon, yn yr ardal wledig hon o Gymru, yn golygu y bydd defnyddwyr y llys sy'n byw ym mhen draw'r dalgylch yn wynebu teithiau hir. Bydd pobl o Nefyn sydd am ddefnyddio'r llys, er enghraifft, yn wynebu teithiau anodd iawn.

Er nad yw'n cael ei ddefnyddio llawer iawn, mae dadl dros gadw'r llys ar sail sicrhau mynediad at gyfiawnder. Ar y sail honno, gwrthwynebir ei gau.

(c) Angen rhagor o fanylion cyn penderfynu

Llys Ynadon Rhydaman

Dim ond am ddiwrnod yr wythnos y bydd y llys hwn yn eistedd, a'r gyfradd defnyddio yw 51%. Efallai nad yw'r costau cynnal cyn uchred ag mae'n ymddangos ac ystyried bod ffigurau diweddar yn cynnwys gwaith atgyweirio hanfodol (dywedir mai'r costau blynyddol yw £110k, ond fel rheol, oddeutu £35-40k fyddai'r swm). Mae'r amser teithio i Lanelli sy'n bedair milltir ar ddeg yn dderbyniol i bob golwg, er bod amserau teithio ar fws yn sylweddol (awr) a bydd hynny'n peri anhawster i'r rheini sy'n byw bellaf. Er enghraifft, mae'r dalgylch i'r gogledd o Rydaman yn enfawr, ac mae'n cynnwys rhannau diarffordd gogledd sir Gaerfyrddin. Dylai unrhyw asesiad ystyried yr amserau teithio o'r ardaloedd hynny (e.e. i'r gogledd o Lanymddyfri).

Mae rhywfaint o ddryswch ynglŷn â pha mor ddigonol yw'r cyfleusterau. Mae rhai'n meddwl eu bod yn wael, ond mae'r Fainc Leol (a'r atebion i Gwestiynau Seneddol) yn awgrymu bod cryn swm wedi'i wario'n ddiweddar ar wella'r cyfleusterau).

Mae'r Gangen leol yn gwrthwynebu'r cau'n gryf ar y sail bod y dalgylch yn ardal wledig eang.

Ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, nid oes dadl arbennig o gref i bob golwg dros gadw'r llys ar agor, er y gall ystyriaethau ynglŷn â natur wledig yr ardal fod yn ffactor yn y penderfyniad.

Llys Ynadon y Barri

Barri yw'r dref fwyaf yng Nghymru a chanddi boblogaeth o 55,000. Mae'r llys yn gwasanaethu dalgylch o 130,000.

Cynigir trosglwyddo'r gwaith o'r Barri i Gaerdydd. Er bod y pellter teithio i Gaerdydd yn rhesymol i bob golwg, mae cryn ddefnydd ar lys y Barri, mae'n eistedd bob dydd a'r ffigur defnyddio yw 56%.

Nid yw'n glir a fyddai Caerdydd yn medru ymdopi â'r llwyth gwaith ychwanegol petai rhywfaint bach o newid yn lefelau'r troseddu. Mae cryn waith wedi'i wneud (yn costio £1.9 miliwn yn ôl yr hyn a ddeallaf) yn ystod y blynyddoedd diwethaf i ddarparu cyfleusterau da yn y llys ac mae'n anodd gweld beth yw'r sail dros y ffigurau sy'n dangos lefel uchel o waith cynnal a chadw sydd wedi cronni.

Mae ynadon lleol yn gwrthwynebu'r cau'n ffyrnig ac maent yn poeni o ddifrif am gywirdeb y data sydd ym mhapur ymgynghori GLEEM.

Mae dadl resymol i bob golwg o blaid cadw'r llys ac ystyried y gwaith sydd wedi'i wneud a'r boblogaeth fawr y mae'r llys yn ei gwasanaethu.

Llys Ynadon a Llys Sirol Cas-gwent

Ar y wyneb, mae'r penderfyniad hwn yn un cymharol syml. Ychydig o ddefnydd fu ar lys sirol Cas-gwent er 2002. Unwaith y pythefnos ar y mwyaf y bu'n eistedd. Mae 50 munud o daith ar fws i bob golwg yn gymharol dderbyniol ac ystyried cyn lleied sy'n defnyddio'r llys ar hyn o bryd (er y bydd defnyddwyr o ben draw'r dalgylch yn wynebu anawsterau sylweddol). Awgrymir, fodd bynnag, mai dim ond £2900 yw'r costau cynnal blynyddol ac mae'r hyblygrwydd presennol (Barnwr Rhanbarth, aelod o'r staff a swyddog diogelwch yn teithio i'r llys) yn cynnig gwasanaeth gwerthfawr i bobl Cas-gwent.

Mae Cymdeithas Barnwyr Rhanbarth EM yn gwrthwynebu'r cau'n gryf; mae'r llys yn gwasanaethu cymuned wledig fawr a thybir mai bychain fyddai'r arbedion ariannol o'u cymharu ag effaith ei gau. Efallai fod dadl o blaid ei gadw ar agor ar y sail bod yr arbedion yn fach iawn o'u cymharu â'r budd cyffredinol i'r dref.

Petai'r llys sirol yn aros, efallai y gellid defnyddio lleoliad Neuadd y Dref hefyd i wneud mân fusnes y Llys Ynadon. Ni wrandawyd achosion yn Llys Ynadon Cas-gwent er 2000, felly mae'n bosibl mai ychydig o angen sydd o safbwynt y busnes. Serch hynny, gall fod yn werth ystyried a oes modd gwrandao rhywfaint o waith troseddol, a thrwy hynny, gefnogi'r ddadl o blaid cynnal llys sirol a Llys Ynadon yn yr ardal, er y dylid cael gwared ar adeilad y Llys Ynadon.

Mae'r ffaith nad yw'r llys yn cael ei ddefnyddio rhyw lawer yn awgrymu nad oes modd cyfiawnhau ei gadw ar agor, ond ac ystyried bod costau cynnal y llys yn isel a rhai o'r problemau teithio, efallai fod angen gwneud rhagor o waith cyn penderfynu'n derfynol.

Llys Ynadon Dinbych

Mae cyflwr yr adeilad yn wael a'r ffigurau defnyddio'n isel. Argymhellir symud y gwaith o Ddinbych i Brestatyn. Er nad yw'r pellteroedd teithio'n sylweddol (13 milltir), mae'n daith awr a mwy ar gludiant cyhoeddus. Mae'n debygol y caiff y rheini sy'n byw ym mhen draw'r dalgylch anhawster go iawn yn teithio i Brestatyn.

Mae'r Fainc leol yn gwrthwynebu'r cau ar y sail bod cysylltiadau cludiant cyhoeddus yn wael iawn ac yn amau gallu Prestatyn i ysgwyddo'r gwaith (defnyddir Dinbych yn aml ar gyfer treialon hir a gwrandawiadau teulu).

O ran yr wybodaeth sydd ar gael, go brin y gellid cyflwyno dadl fusnes gref dros ei gadw ar agor, ond mae angen rhywfaint o sicrwydd y gall Prestatyn ysgwyddo'r llwyth gwaith.

Llys Ynadon Llwynypia

Mae eithaf tipyn o ddefnydd ar y llys hwn. Mae'n eistedd 4 diwrnod yr wythnos a'i gyfradd defnyddio yw 56%. Cynigir symud y gwaith hwnnw i Bontypridd. Mae'r amserau teithio'n dderbynol (os defnyddir y trên), er bod rhai'n poeni ynglŷn â gallu Pontypridd i ysgwyddo'r llwyth gwaith sy'n un gweddol sylweddol.

Mae angen ymchwilio rhagor i'r sefyllfa, ond os llwyddir i dawelu meddwl pobl ynglŷn â hynny, nid oes gan aelodau'r farnwriaeth yr ymgynghorwyd â hwy wrthwynebiad sylweddol, ac, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, ymddengys mai ychydig o gyfiawnhad sydd dros gadw'r llys ar agor.

Llys Sirol Pont-y-pŵl

Llys modern wedi'i godi at y diben yw hwn ond nid yw'n cael ei ddefnyddio'n aml ac mae o fewn pellter teithio cymharol rwydd (10 milltir) i Lys Sirol y Coed Duon. Serch hynny, mae'r ardal hon yn ardal ddi-fraint a byddai'r amserau teithio a'r gost (£7 ar gyfer taith ar fws i'r Coed Duon) yn faich sylweddol ar ddefnyddwyr llys bregus. Mae rhai'n poeni hefyd a all y Coed Duon (canolfan dau lys brysur) ysgwyddo'r llwyth gwaith.

Drwyddi draw, go brin y gall y pryderon hyn, ynddynt eu hunain, gyfiawnhau cadw'r llys ar agor, ond byddai barnwriaeth y Gylchdaith yn hoffi gweld ystyried ar frys a ellir dod o hyd i leoliad amgen yn y dref i ymdrin â gwaith y llys sirol. Fel arall, dylid ystyried a oes modd rhannu'r cyfleusterau modern â Gwasanaeth y Tribiwnlysoedd.